**CYNGOR BRO MORGANNWG**

**ADRAN 123 (2A) – DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972 (FEL Y'I DIWYGIWYD)**

**HYSBYSIAD GWAREDU MAN AGORED**

**DWY LAIN O DIR YNG NGHEFN 42 A 46 FONMON ROAD, Y RHWS**

HYSBYSIR trwy hyn fod Cyngor Bro Morgannwg yn bwriadu gwaredu 2 lain o dir yng nghefn 42 a 46 Fonmon Road, y Rhws sy'n cynnwys man agored cyhoeddus.

Gellir archwilio cynllun sy'n nodi'r tir ar wefan y Cyngor yn https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our_council/legal_notices/Legal-Notices.aspx

Rhaid gwneud gwrthwynebiadau i'r broses waredu arfaethedig yn ysgrifenedig, gan nodi'r seiliau dros wrthwynebiadau o'r fath, a'u cyfeirio at Adran Datblygu Ystadau, Cyngor Bro Morgannwg, Y Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, Y Barri, CF63 4RU neu drwy e-bost at strategicpropertyonevale@valeofglamorgan.gov.uk erbyn dim hwyrach na 5pm ar 30ain Mawrth 2023.

Gyda golwg ar Ddeddf Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) 1985 rhoddir gwybod i bersonau sy'n gwrthwynebu'r cynnig fod y Cyngor hwn yn gyfreithiol rwymedig i wneud unrhyw sylwadau a dderbynnir mewn ymateb i'r cynnig ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio.

Dyddiedig 28ain Chwefror 2023

D. Marles
Swyddog Monitro/Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd